**TGAU**

0225/01

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF
## HAEN SYLFAENOL

A.M. DYDD MERCHER, 16 Tachwedd 2011

2½ awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfr ateb 12 tudalen.

Deunydd Darllen ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **tri** chwestiwn o Adran A ac **un** cwestiwn o Adran B.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¾ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf ¾ awr i gwblhau cwestiwn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

## ADRAN A

Darllenwch y **tri darn** ac yna atebwch y **tri** chwestiwn.

Darn Darllen 1: Lowri Morgan yn Ennill y Ras
Darn Darllen 2: Yr Unig Un i Goncro'r Arctig
Darn Darllen 3: Ar Fôr Tymhestlog

- Darllenwch y darnau darllen a'r cwestiynau cyfan yn ofalus. Yna, atebwch y cwestiynau, gan ddefnyddio'r ffeithiau o'r darnau darllen yn unig.
- Wrth ateb dylech roi sylw i gywirdeb iaith a mynegiant. Rhoddir hyd at **20 marc** yn yr adran hon am ansawdd eich iaith a'ch mynegiant ar draws yr holl atebion.

**1. Lowri Morgan yn Ennill y Ras (Darn Darllen 1)**
**Yr Unig Un i Goncro'r Arctig (Darn Darllen 2)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(i) Pa wobr enillodd y gyfres *Ras yn Erbyn Amser*? [2]

(ii) Pa **ddwy** ras mae Lowri wedi eu cwblhau? [2]

(iii) Sawl diwrnod gymrodd Lowri i redeg *Marathon Jyngl yr Amazon*? [1]

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(iv) Faint o athletwyr oedd wedi dechrau'r ras *6633 Ultra*? [1]

(v) Sawl milltir oedd y ras *6633 Ultra* a sawl diwrnod oedd ei angen i gwblhau'r ras? [2]

(vi) Ar gyfer pa elusen roedd Lowri yn codi arian? [2]

**[10]**

**2. Lowri Morgan yn Ennill y Ras (Darn Darllen 1)**
**Yr Unig Un i Goncro'r Arctig (Darn Darllen 2)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1 a Darn Darllen 2** ysgrifennwch gyfweliad radio/teledu â Lowri Morgan.

Dylech gynnwys gwybodaeth am:

- y cefndir - pwy ydy hi a beth wnaeth hi
- y profiadau a gafodd yn ystod y ddwy ras
- y gyfres deledu *Ras yn Erbyn Amser (Marathon Jyngl yr Amazon* a'r ras *6633 Ultra)* ynghyd â'r wobr a enillodd. [28]

Ysgrifennwch ar ffurf **deialog**. [2]

*Defnyddiwch wybodaeth o **Ddarn Darllen 1 a Darn Darllen 2** yn unig.*
*Dylech ddefnyddio **eich geiriau eich hun**.*

**[30]**

**3. Yr Unig Un i Goncro'r Arctig (Darn Darllen 2)**
**Ar Fôr Tymhestlog (Darn Darllen 3)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** a **Darn Darllen 3** nodwch yn fyr bethau sy'n debyg a/ neu'n wahanol rhwng y ddau ddarn darllen.

Dylech gyfeirio at y canlynol wrth ymdrin â'r ddau ddarn:

(i) cynnwys (**tri** pheth o Ddarn Darllen 2 a **thri** pheth o Ddarn Darllen 3); [9]

(ii) ffurf, iaith, arddull a disgrifiadau (**dau** beth o Ddarn Darllen 2 a **dau** beth o Ddarn Darllen 3). [6]

Rhoddir marciau i chi am **gymharu bwriadol a threfnus** yn adran (i) a (ii). [2]

Dylech gynnwys **dyfyniadau o'r ddau ddarn** i gefnogi'ch sylwadau yn adran (i) a (ii). [3]

*Peidiwch ag ymdrin â'r ddau ddarn darllen ar wahân.*

**[20]**

**[60 + 20 = 80]**

**TROSODD AR GYFER ADRAN B**



**Trosodd.**

## ADRAN B

**4.** Dewiswch **un** o'r testunau canlynol ac ysgrifennwch arno.
Nodwch rif y cwestiwn a thestun y gwaith.
Dylai eich ateb fod o leiaf **ddwy** ochr tudalen.
Meddyliwch a chynlluniwch eich gwaith yn ofalus.
Rhowch sylw manwl i ysgrifennu'n gywir.

**[20 + 20 = 40]**

*(a)* **STORI:**

Ysgrifennwch stori ar **un** o'r testunau canlynol:

**Naill ai:** 'Y ras.'
**Neu:** 'Un o brofiadau mwyaf anhygoel fy mywyd!'

*Ceisiwch wneud yn siŵr bod eich stori yn ddiddorol, a bod cymeriadau a digwyddiadau ynddi.*

*(b)* **YMSON:**

Ysgrifennwch ymson person sy'n cyflawni rhyw fath o sialens.

*Cofiwch ddychmygu mai chi yw'r cymeriad, gan nodi meddyliau a theimladau'r person ar yr union amser hynny.*

*(c)* **PORTREAD:**

Ysgrifennwch bortread o berson sy'n arwr i chi.

*Ceisiwch ddangos sut fath o berson ydyw, gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol ac unrhyw hanesion amdano/ amdani.*

*(ch)* **ARAITH** neu **ERTHYGL** yn **MYNEGI BARN** ar y testun:

Mae rhai pobl yn mentro gormod ac yn achosi trafferth i eraill!

*Medrwch gytuno neu anghytuno â'r gosodiad uchod. Ceisiwch fod yn drefnus a rhoi tystiolaeth i gefnogi eich pwyntiau a'ch barn bob tro.*

**TGAU**

0225/01-A

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF
## HAEN SYLFAENOL

A.M. DYDD MERCHER, 16 Tachwedd 2011

2½ awr

0225
010001

**DEUNYDD DARLLEN AR GYFER ADRAN A I'W DDEFNYDDIO GYDA HAEN SYLFAENOL**


| | Tudalen |
|---|---|
| Darn Darllen 1 | 2 |
| Darn Darllen 2 | 3 |
| Darn Darllen 3 | 4 |

**DARN DARLLEN 1**


BBC Cymru Newyddion bbc.co.uk

# Lowri Morgan yn Ennill y Ras

**Mae cyfres S4C, fu'n dilyn ras yr athletwraig a'r gyflwynwraig Lowri Morgan yn jyngl yr Amazon wedi ennill gwobr 'Ysbryd yr Ŵyl' yn yr Ŵyl Cyfryngau Celtaidd 2011.**

Enillodd *Ras yn Erbyn Amser* un o brif wobrau'r ŵyl yn Stornoway, Ynys Lewis, Yr Alban. Roedd y cynhyrchiad gan gwmni *P.O.P.1* ar gyfer S4C yn dilyn Lowri yn rhedeg *Marathon y Jyngl* yn yr Amazon, sy'n cael ei hystyried yn ras anodda'r byd.

Mae'r gyfres, a gafodd ei darlledu ddechrau 2010 yn fuan ar ôl i Lowri gwblhau'r marathon, yn ei dilyn yn paratoi, ymarfer ac yn rhedeg y ras 222 cilomedr saith diwrnod yng ngwres crasboeth ac amgylchiadau anodd jyngl yr Amazon. Mae'r wobr yn cael ei rhoi i raglen deledu neu ffilm sydd mewn iaith Geltaidd.



**'Mynnu sylw'**

Meddai Meirion Davies, Cyfarwyddwr Comisiynu S4C: 'Mae'r gyfres *Ras yn Erbyn Amser* yn llwyddo i gyfleu ymroddiad rhyfeddol Lowri Morgan wrth iddi wthio ffiniau corff a meddwl i'r eithaf yn y jyngl.'

Ers cwblhau *Marathon y Jyngl* mae'r athletwraig 35 mlwydd oed, sy'n wreiddiol o Abertawe a nawr yn byw yng Nghaerdydd, wedi cwblhau her fawr arall, y ras *6633 Ultra* yn yr Arctig. Bu camerâu cwmni *P.O.P.1* yn dilyn y ras honno hefyd ac mae'r ail gyfres o *Ras yn Erbyn Amser*, newydd ddod i ben ar S4C.

**'Braint'**




Mae'n fraint ac yn anrhydedd ennill gwobr fwya' Gŵyl Cyfryngau Celtaidd 2011. Rydw i'n hynod ddiolchgar ac yn ei gwerthfawrogi'n fawr.

Mae derbyn y wobr hon yn fraint fawr - yn union fel yr oedd cael y cyfle i redeg y ddau farathon *ultra* yn y jyngl a'r Arctig. Mae derbyn cydnabyddiaeth am rywbeth dw i'n caru ei wneud - sef cynhyrchu rhaglenni teledu, gwthio ffiniau personol a darganfod rhai newydd - yn fraint fawr.

**DARN DARLLEN 2**

BBC Cymru Newyddion bbc.co.uk

## Yr Unig Un i Goncro'r Arctig

**Y cyflwynydd teledu Lowri Morgan oedd yr unig un i orffen ras eithafol 350 milltir ar draws yr Arctig eleni, a dim ond y chweched i lwyddo erioed.**

Dywedir bod y ras *6633 Ultra* ymhlith y sialensau anoddaf ar y blaned ac, er i 12 o athletwyr ei dechrau, Lowri oedd yr unig un i gyrraedd y llinell derfyn.

Mae'r ras 350 milltir yn cymryd wyth diwrnod i'w chwblhau. Roedd Lowri ar ei phen ei hun am y tri diwrnod olaf wedi i'w chyd-gystadleuwyr orffen ar ôl 120 milltir neu roi'r gorau iddi cyn y pellter llawn.

Dywedodd mai dyma'r sialens fwyaf iddi wynebu erioed.

'Doedd ffitrwydd yn unig ddim yn ddigon i'ch cario chi drwy'r ras,' meddai. 'Roedd yn brifo yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol.'



Lowri yw'r chweched person yn y byd i gwblhau'r ras *6633 Ultra*.

**Diffyg cwsg**

Bu'n rhaid i Lowri dynnu sled yn llawn offer a bwyd ar hyd y cwrs. Llwyddodd i'w gwblhau mewn 174 awr ac 8 munud. Roedd hefyd yn gorfod ymdopi gydag effeithiau diffyg cwsg.

'Ces i ryw 15 awr o gwsg dros yr wyth diwrnod,' meddai.

Nid dyma'r tro cyntaf i Lowri ymgeisio sialens o'r fath. Mae hi bellach yn 18 mis ers iddi redeg *Marathon Jyngl yr Amazon*.

Yn y ras honno, daeth yn drydydd ymhlith y merched ac yn y deg uchaf o bawb er gwaethaf y lleithder a'r tymheredd crasboeth.

**Codi arian**

Roedd Lowri'n falch o gyrraedd adref wedi ei hantur ddiweddaraf.

'Roeddwn i wrth fy modd yn dod adre a gweld fy ngŵr a 'nheulu,' meddai. 'Dw i'n edrych ymlaen at gael y balans 'nôl yn fy mywyd a rhoi fy nhraed i fyny.'

Roedd camerâu'r gyfres *Ras yn Erbyn Amser* yn yr Arctig yn dilyn pob cam o daith Lowri ac fe ddarlledwyd y rhaglen olaf ar S4C nos Iau, Ebrill 14eg, am 8.30pm. Fel rhan o'i hymgyrch ei hun, mae Lowri wedi bod yn codi arian at elusen *Shelter Cymru* wrth redeg y ras.

'Mae'n elusen dw i'n credu'n gryf iawn ynddi,' meddai.

Er gwaethaf maint y sialens dywedodd Lowri ei bod wedi mwynhau.

Dywedodd: 'Bu'n un o brofiadau mwya' anghredadwy ac anhygoel fy mywyd.'

0225 010003



**Trosodd.**

## DARN DARLLEN 3




**Ar Fôr Tymhestlog – Elin Haf (Gwasg Carreg Gwalch)**

Mae hanes bywyd ifanc Elin Haf yn llawn o wynebu pob her, a thaclo pob rhwystr ac anhawster. Dilyn breuddwyd wnaeth hi, breuddwyd a wnaeth fygwth troi'n hunllef. Dyma rannau o'i hanes.

**Dechrau'r daith**

Ras rwyfo Cefnfor Iwerydd – *'The World's Toughest Rowing Race'*, yn ôl y trefnwyr, *Woodvale Challenge*. A dyma fi, merch fferm o Ogledd Cymru heb yr un diwrnod o brofiad allan ar y môr mawr, a dim ond ychydig o wersi rhwyfo, yn un o'r cystadleuwyr. Roedd hyn yn wallgof.

Doedden ni ddim wedi gweld yr un o'r cystadleuwyr eraill ers oriau, a doedden ni ddim yn debygol o weld neb eto am weddill ein hamser ar y môr.  Ras yn erbyn y cloc, yn erbyn y tonnau ac yn erbyn beth bynnag fyddai grym y môr yn ei daflu atom oedd hon.

O'r diwedd torrodd y wawr, a gwelwn fymryn o haul yn goleuo'r gorwel. Arwydd ein bod wedi goroesi ein noson gyntaf allan ar y môr mawr, er mai rhyw gysur digon chwerw oedd hwnnw o ystyried faint oedd o'n blaenau.

**Parhau â'r daith**

Clywn y tonnau'n carlamu tuag atom, gan wasgu llaw ddur o ofn am fy ngwddw. Oherwydd y tywyllwch dudew roeddwn i'n methu gweld o ba gyfeiriad y deuai'r tonnau, ac achosai hynny i mi gael fy nhaflu o'm sedd yn ddidrugaredd. Pam nad oedd yna leuad llawn i gynnig cymorth inni ar y daith?

Daeth ton arall ar garlam a tharo yn erbyn ochr ein cwch bach, *Dream Maker*, gan yrru cawod o ddŵr oer Cefnfor Iwerydd drosta i. Cymysgodd blas hallt fy nagrau a'r môr yn un. Crynais wrth i'r oerfel yrru ias i lawr fy nghefn a chydio ym mêr fy esgyrn. Sylwais ar Herdip, fy nghyd-rwyfwraig, yn gorwedd yn y caban. Herdip, yr unig aelod arall o'r tîm, fy unig gwmni am y dyddiau, yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Gwireddu breuddwyd? Roedd hyn yn mynd i fod yn hunllef.

O fewn oriau cyntaf y daith roedd swigod wedi ymddangos ar ein dwylo. Er ein bod wedi prynu menig at y daith, doedden nhw'n helpu dim. Efo ton ar ôl ton yn golchi drosom roedden nhw'n wlyb domen yn fuan iawn. Heb y menig roedd mymryn o obaith i'r dwylo sychu rhwng pob ton, ac roedd hynny'n well i gyflwr y croen.

**Glanio yn Antigua**

Ar ôl un wythnos ar ddeg ar y môr, yn gofidio'n gyson na fydden ni byth yn dod yn agos ati, roedden ni bellach yn agos iawn at gwblhau'r daith. Bron na fuaswn i'n gallu nofio'r darn bach olaf.

Wrth inni agosáu at yr harbwr, llanwyd yr awyr gan fflachiadau coch, gwyn ac oren.  Roedd llu o bobl allan ar eu cychod hwylio, a'r rheiny'n gychod drudfawr, yn gweiddi a chlapio wrth inni rwyfo heibio yn edrych fel cardotwyr.  Roedd eraill yn canu eu cyrn niwl.

O'r diwedd cefais gip ar faner Cymru ar y lan, a gwyddwn yn sicr bellach fod Dad a Mam a Gles yno. Roeddwn wedi gwireddu breuddwyd! Fi oedd y Gymraes gyntaf i rwyfo ar draws Cefnfor Iwerydd – ar ôl 77 diwrnod, 7 awr a 37 munud o antur a dim ond 42 o ferched oedd wedi gwneud hynny o'r blaen. Roedd y ddwy ohonom yn dal ar dir y byw, ac yn dal i gyfathrebu. Yn fwy anhygoel na dim, roedd ein hymdrechion wedi llwyddo i gasglu £190,000 tuag at waith ymchwil metabolig yn *Ysbyty Plant Great Ormond Street*.